Ysgol Gyfun Gŵyr
Gorau byw cyd-fyw

08.01.25

Annwyl Rieni / Warcheidwaid,

Blwyddyn Newydd Dda i chi ac edrychaf ymlaen i barhau i gydweithio'n hwylus â chi er budd eich plentyn /plant. Mae tymor cyffrous iawn yn ein hwynebu gyda dathliadau'r ysgol yn 40 mlwydd oed yn parhau a pharatoadau ar gyfer Eisteddfod yr Urdd ym Mharc Margam ym mis Mai yn cynyddu. Daw mwy o wybodaeth atoch maes o law am hyn.

Gwisg Ysgol ac Offer

Gallaf bwyso arnoch i sicrhau fod dysgwyr yn gwisgo y wisg ysgol briodol. Golyga hyn drowsus neu sgert ddu blaen, esgidiau du, *hoody* swyddogol yr ysgol (ni chaniateir unrhyw *hoody* arall) neu siwmper ddu gyda bathodyn yr ysgol arni, crys polo glas gyda bathodyn yr ysgol. A fyddech hefyd mor garedig â gosod enwau ar eiddo fel ein bod yn medru dychwelyd eiddo coll yn syth i'r perchennog. Fe fyddwn yn monitro y wisg yn achlysurol ac yn cysylltu â chi pan fydd dysgwyr yn gwrthod cydymffurfio yn rheolaidd. Yn ogystal, a wnewch chi sicrhau bod dysgwyr yn dod â'r deunydd ysgrifennu priodol i'r ysgol. **Mae gormod o blant yn anghofio peniau, pensiliau, ac ati o hyd. Cyfrifoldeb y dysgwr a'i rieni yw sicrhau fod plant ym meddu ar yr adnoddau sy'n eu gwneud yn barod i ddysgu.**

Presenoldeb

Mae presenoldeb i ddysgu yn amwg yn ffactor allweddol a gyfranna at lwyddiant pob dysgwr, ac rwy'n falch i'ch hysbysu bod cyfradd bresenoldeb yr ysgol ar gyfer tymor cyntaf y flwyddyn ysgol yn dda iawn, sef **94%.** Mae hwn yn gosod yr ysgol yn agos at frig ysgolion uwchradd y sir a dylai hwn fod yn destun clod i ddysgwyr a'u teuluoedd. Fodd bynnag, rhaid parhau â'r safon uchel hon am weddill y flwyddyn ysgol. Oes modd gofyn i chi sicrhau felly fod eich plentyn/plant yn mynychu'r ysgol ar bob diwrnod posib rhwng nawr a'r haf. Fe'ch anogwn i beidio a threfnu gwyliau ar gyfer dysgwyr yn ystod y tymor. Mae'n annhebygol iawn y cewch ganiatâd swyddogol o'r ysgol i ddysgwyr fynd ar wyliau o'r fath, ac fe'u cofnodir felly yn absenoldeb heb awdurdod.

Cronfa Ysgol Wirfoddol

Diolch i reini ohonoch sydd eisoes wedi cyfrannu at y Gronfa Ysgol Wirfoddol. Felly, gofynnaf i chi unwaith eto i ystyried cyfrannu yn wirfoddol £10 y tymor i'r gronfa hon os oes gyda chi blentyn yn yr ysgol, cyfanswm felly o £30 y flwyddyn (Os oes gyda chi ail blentyn, gofynnwn i chi ystyried cyfrannu £20 y flwyddyn am y disgybl hwnnw, ac os oes gyda chi drydydd

Pennaeth: Mr Jeffrey Connick BA
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea-edunet.gov.uk | https://www.yggwyr.org.uk

Gwobr Cwricwlwm Ysgolion Schools Curriculum Award
Heartbeat Award Gwobr Curiad Calon
Challenge Award nace 2015–2025
QS
SportsMarc NPFA
360safe Cymru Cynnydd i Ddiogelwch Ar-lein

plentyn, gofynnwn am gyfraniad o £10 y flwyddyn). Gallwch dalu drwy eich cyfrif *I Pay* ysgol. Os na chredwch y gallwch gyfrannu y symiau hyn am ba reswm bynnag, byddai unrhyw gyfraniad ariannol o hyd yn cael ei werthfawrogi. Y rheswm dros sefydlu'r gronfa yw y cyd-destun ariannol heriol a wyneba'r ysgol gyda'r cyllid annigonol a geir drwy law'r Awdurdod Addysg Leol a Llywodraeth Cymru yn wyneb y cynnydd mewn costau. Os ydym i barhau i gynnig yr arlwy gwricwlaidd gyfoethog o ddysgu ac addysgu o safon uchel ar dir yr ysgol a rhaglen eang o weithgareddau allgyrsiol -sy'n cyfrannu at greu dysgwyr sy'n gwireddu eu potensial a dinasyddion rhagorol-mae'n rhaid canfod ffynonellau cyllid ychwanegol. Diolch am roi ystyriaeth i'r mater hwn.

Croeso
Hoffwn groesawu Abigail Collins, sy'n ymuno'n llawn amser tan yr Haf gyda'r Adran Saesneg, i staff yr ysgol. Mae Ms Collins eisoes wedi bod gyda ni am beth amser cyn y Nadolig ond mae hi bellach yn llawn amser.

Noson Ddewisiadau 16+
Fe'ch atgoffir fod Noson Ddewisiadau 16+ i'w chynnal ar **Dydd Iau 16 Ionawr.** Gofynnaf i bob dysgwr ym Bl 11, a'u rhieni/gwarcheidwaid, fynychu'r noson i glywed am yr arlwy gyfoethog o ddewisiadau pynciol sydd ar gael yn y Chweched Dosbarth. Mae canlyniadau myfyrwyr y Chweched yng Ngwyr yn rheolaidd yn ardderchog, ac yn cymharu'n ffafriol dros ben â chanlyniadau ysgolion eraill a cholegau y Sir. Yn ychwanegol, pam y byddai disgyblion yn mentro i sefyllfa newydd ac ansicr ar amser mor dyngedfennol ar eu taith addysgol os yw'n bosib dilyn eu cyrsiau dewisiedig yn Chweched Dosbarth Gwyr? Hefyd, cynigia'r ysgol ystod o gyfleoedd arweinyddiaeth gwerthfawr nad sydd ar gael mewn sefydliadau addysgol eraill y byddai modd eu nodi ar *CV* neu gais am swydd/prifysgol.

Atgoffa
Mae **Noson Rieni Bl 11**-sy'n adrodd nôl ar gyrhaeddiad- i'w chynnal ar **Ddydd Mercher 29 Ionawr** ac fe fydd **Gwyliau Hanner Tymor** yn cychwyn ar **Ddydd Llun 24 Chwefror.** Yn ychwanegol, fe fydd **Dyddiau Llun a Mawrth, 3 a 4 Mawrth** yn **ddiwrnodau HMS** (pan fydd yr ysgol ynghau i ddysgwyr). Fe fydd yn staff yn derbyn hyfforddiant ar fanylebau newydd y TGAUau a gyflwynir ym Medi 2025 ar y diwrnodau hyn.

Dear Parents / Guardians,

A Happy New Year to you and I look forward to continuing to cooperate with you for the academic benefit and wellbeing of your child /children. The term will be an exciting one with

the celebrations continuing to mark the school's 40th anniversary and increased activity in preparation for the Urdd Eisteddfod at Margam Park in May. You will get more information about all of this in due course.

School Uniform and Equipment

May I impress upon you to ensure that learners wear the appropriate school uniform. This means plain black trousers or skirt, black shoes, the school official hoody (no other hoody will be a allowed) or a black sweater with the school badge, a blue polo shirt with the school badge. Please would you ensure names are placed on all items of property so that lost items can be easily returned to the owner. We will monitor the uniform occasionally and contact you when learners regularly refuse to conform. In addition, could you ensure that learners bring the necessary writing equipment to school. ***Too many children forget to bring pens, pencils, etc to school. It is the pupil and parents' responsibility to ensure that he/she/them possess the equipment to learn.***

Attendance

Attending school to learn is obviously a key factor in ensuring pupil success, and I am pleased to inform you that the school attendance rate for the first term of the school year was very good at ***94%.*** *This places the school close to the top of the county's secondary schools and this should be a source of pride for learners and their families. However, we need to maintain this high standard for the remainder of the school year. Could you please ensure therefore that your child/ren attend/s school every day possible between now and the summer. Please avoid arranging holidays for learners during term time. It is unlikely that the school will authorise term-time holidays and any connected absence will be classed as unauthorised.*

Cronfa Ysgol Wirfoddol (Voluntary School Fund)

Thank you to those of you who have already contributed to the Cronfa Ysgol Wirfoddol (Voluntary School Fund). I therefore kindly ask parents/guardians once again to consider voluntarily contributing £10 per term to this fund if you have a child at school, a total therefore of £30 a year (If you have a second child, we ask that you consider contributing £20 a year for that pupil, and if you have a third child, we ask for a contribution of £10 a year). You can pay through your I Pay school account. If you find such amounts unacceptable for whatever reason, any financial contribution would still be appreciated. The reason for establishing the fund is the challenging financial context the school faces with the

inadequate funding obtained through the Local Education Authority and Welsh Government in the face of rising costs. If we are to continue to offer the rich curricular provision of high-quality teaching and learning on the school site and an extensive programme of extra-curricular activities-which contribute to the creation of learners who realise their potential and excellent citizens-additional sources of funding must be found. Thank you for giving this matter your consideration.

Croeso

We welcome Abigail Collins, until the summer, as a temporary full-time member of the English Department. Ms. Collins spent some time at the school before Christmas but is now with us on a full-time basis.

16+ Options Evening

You are reminded that the 16+ Options Evening is on ***Thursday 16 January.*** *I kindly request that all Year 11 learners, together with their parents/guardians, attend this evening in order to hear about the rich menu of subjects available in the Sixth Form. The academic results of our Sixth Form students are consistently excellent and compare very favourably with other schools and colleges in the county. In addition, why would pupils venture to a new and uncertain situation at a time which is crucial in their educational journey if their chosen options are available at the Gwyr Sixth Form? Also, the school offers a range of leadership opportunities not available at other educational establishments which are invaluable experiences to note on a CV and a job/university application.*

Reminder

The ***Yr. 11 Parents Evening****-which reports on pupil attainment- is on* ***Wednesday 29 January*** *and the* ***Half Term Holidays*** *will begin* ***on Monday 24 February.*** *In addition,* ***Monday and Tuesday, 3 and 4 March,*** *will be* ***INSET days*** *(when the school is closed for learners)****.*** *Teachers will receive training on those days on the content of the new GCSE specifications to be taught from September 2025.*

Yn gywir/ Yours sincerely,

J. Connick

Pennaeth/ *Headmaster*

Pennaeth: Mr Jeffrey Connick BA
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea-edunet.gov.uk | https://www.yggwyr.org.uk